



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Dyffryn Cledlyn
Drefach Llanybydder
Ceredigion
SA40 9SX**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Cledlyn

Lleolir Ysgol Dyffryn Cledlyn ym mhentref Drefach ger Llanybydder ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ceredigion. Mae 122 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 20 oed meithrin. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 5 dosbarth oed cymysg gan gynnwys 1 dosbarth meithrin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn llawer yn is na'r ganran genedlaethol sy'n 18%. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 21% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyfartal â'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Agorwyd Ysgol Dyffryn Cledlyn ym mis Medi 2017 o ganlyniad i uno tair ysgol leol â'i gilydd, sef ysgolion Cwrtnewydd, Llanwnnen a Llanwenog. Penodwyd y pennaeth ym mis Ebrill 2014 gyda chyfrifoldeb dros y tair ysgol hyn cyn iddynt uno i greu'r ysgol newydd yn 2017.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae'r pennaeth ynghyd â'r staff, disgyblion, llywodraethwyr ac aelodau'r cymunedau lleol wedi cydweithio'n hynod effeithiol i greu ysgol lwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at greu ysgol gymunedol hapus a chynhwysol sydd â ffocws clir ar hyrwyddo safonau rhagorol o ran lles a chyflawniad disgyblion. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ffordd y caiff llais y disgyblion ei gynnwys yn llawn wrth wneud penderfyniadau am ddatblygiad yr ysgol. O ganlyniad, mae agweddau bron pob un disgybl tuag at ddysgu yn gryf ac maent yn dangos balchder yn eu hysgol newydd.

Mae ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu o safon uchel iawn. Nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol yw'r ffordd mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd hynod effeithiol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau yn gwbl naturiol a phwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ogystal â'u medrau creadigol a datrys problemau. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth o ran datblygu medrau llafar ac ysgrifennu yn ardderchog sy'n cyfrannu'n arbennig at safonau uchel o ran cyflawniad y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Rhagorol
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Rhagorol
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Rhagorol

Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas ag arweinyddiaeth a datblygu medrau llafar ac ysgrifennu disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Rhagorol

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd cryf iawn o'u man cychwyn, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cymhwyso eu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus ar draws ystod o feysydd dysgu.

Mae safonau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn arbennig o dda ar draws yr ysgol. Maent yn trafod yn hyderus, gan ddefnyddio geirfa estynedig yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn siarad yn naturiol gyda'i ffrindiau wrth weithio ac yn holi cwestiynau yn hyderus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn siarad yn naturiol wrth ddarogan y tywydd mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn siarad yn gywir gan ddefnyddio geirfa estynedig a safonol. Maent yn defnyddio geirfa goeth yn naturiol a llwyddiannus iawn wrth drafod cynnwys eu gwaith ysgrifennu. Mae'r disgyblion hynaf yn gweithio'n hynod aeddfed fel parau a grwpiau bach wrth drafod geirfa estynedig a chreadigol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn dda iawn ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dysgu darllen yn gyflym trwy amrediad cyfoethog o weithgareddau. Maent yn adnabod llythrennau a synau o oedran cynnar ac yn adnabod geiriau newydd yn fuan. Mae gan y disgyblion mwyaf abl ym Mlwyddyn 2 strategaethau adeiladu geiriau aml-sill effeithiol iawn. Maent yn talu sylw i atalnodi yn llwyddiannus ac yn addasu goslef llais yn naturiol er mwyn creu effaith wrth ddarllen ar goedd. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ddarllenwyr hynod hyderus ac aeddfed. Maent yn trafod eu hoff awduron ac yn egluro eu hoffter o wahanol ffurfiau. Gallant gyfeirio at elfennau sydd yn apelio atynt mewn gwahanol ffurfiau a mynegi gwerthfawrogiad o arddull gwahanol awduron. Maent yn llithrddarllen yn hyderus iawn er mwyn cywain gwybodaeth, er enghraifft wrth ymchwilio i hanes boddi Tryweryn.

Mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn hynod gryf ar draws yr ysgol. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn dechrau ysgrifennu yn gynnar ac yn creu darnau syml yn annibynnol. Er enghraifft, wrth ysgrifennu stori'r 'Draenog bach caredig', mae'r disgyblion mwyaf abl yn creu darnau dychmygus yn effeithiol, gan atalnodi a sillafu geiriau cyfarwydd a mwy ymestynnol yn gywir. Un o gryfderau nodedig cyfnod allweddol 2 yw'r ffordd y mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu i safon uchel iawn at wahanol bwrpasau mewn ystod eang o gyd-destunau. Enghraifft nodedig yw'r stori greadigol gan ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi ei seilio ar degan. Mae'r straeon yn llawn dychmyg ac yn hynod ddiddorol i'w darllen. Defnyddiant ystod o ansoddeiriau a chymariaethau effeithiol, er enghraifft 'yn sydyn tarodd rhywbeth lygaid Lleucu. Roedd ganddi wallt du sgleiniog fel y fagddu a llygaid gwyrdd drygionus fel dwy seren yn ei phen.'

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn iawn ar draws yr ysgol. Gallant ddefnyddio'u medrau rhif ac adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym i ddatrys problemau yn llwyddiannus. Maent yn cymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu'n flaenorol yn hyderus mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod

sylyfaen, mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio eu gwybodaeth o arian i gyfri cyfanswm eitemau wrth siopa yn y 'Siop Sgïo'. Enghraifft nodedig yng nghyfnod allweddol 2 yw'r modd mae rhan fwyaf y disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn hyderus wrth adalw ffeithiau rhif a chymhwyso'u medrau i ddatrys problem yn seiliedig ar greu cynghrair rygbi newydd Cymru.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) bron pob disgybl yn datblygu'n effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Yn fuan ar ôl cychwyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos medrau da wrth ddefnyddio cyfarpar TGCh i gefnogi'u dysgu. Er enghraifft, maent yn rheoli tegau rhaglenadwy â chymorth ac yn defnyddio'r cyfrifiadur i ysgrifennu brawddegau i ddisgrifio'r draenog yn y stori 'Un Noson Oer'. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus iawn i gyflwyno gwybodaeth mewn amryw o ffurfiau gwahanol, gan gynnwys trefnu data ar ffurf graff i ddangos tymheredd mewn trefi a dinasoedd ar draws Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn adeiladu ar eu medrau'n gynyddol hyderus ac yn eu defnyddio i safonau uchel iawn mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio taenlenni a fformiwlâu i drefnu data'n effeithiol, er enghraifft ar gyfer cofnodi cyfanswm costau teithio i fannau arbennig ar draws Cymru. Maent yn creu bas data yn hyderus i gofnodi gwybodaeth, er enghraifft wrth gofnodi taldra adeiladau talaf y byd. Mae'r rhan fwyaf yn medru cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus iawn i greu cyflwyniadau ar ystod o themâu, er enghraifft i ysgrifennu sgript a chreu ffilm am ddiogelwch ar y we fel rhan o'u prosiect gydag ysgolion y clwstwr. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod gan bron pob disgybl ddealltwriaeth eang a chadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngwyd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau medrau meddwl yn fedrus i gefnogi eu gwaith ac i ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, mae eu medrau creadigol yn datblygu'n effeithiol iawn ar draws yr ysgol wrth iddynt gymryd rhan mewn nifer helaeth o weithgareddau buddiol iawn.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae llais y disgybl yn rhan gwbl ganolog i holl weithgareddau'r ysgol. Mae bron pob disgybl wedi bod yn rhan allweddol wrth sefydlu hunaniaeth ac ethos yr ysgol. Maent wedi cynllunio'r logo, penderfynu ar liwiau'r ysgol, enwau'r dosbarthiadau ac arwyddair yr ysgol. Mae'r gerddi a'r murlun trawiadol sydd wedi eu creu ar y cyd gan y disgyblion, bardd ac artist lleol wedi arwain at deimlad o falchder, perchnogaeth ac undod amlwg ymysg y disgyblion. Mae llais y disgyblion yn hynod gryf ar lawr dosbarth wrth iddynt gynllunio gwahanol themâu ac mewn cynghorau lluosog.

Mae holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yn chwarae rôl flaenllaw ar wahanol bwyllgorau'r ysgol ac yn magu hyder a medrau cyfathrebu cryf. Mae'r disgyblion hyn bellach yn arwain agweddau pwysig ar waith yr ysgol drwy fynegi barn ar weithdrefnau sy'n berthnasol iddynt a thrwy arwain gweithdai ffitrwydd, clybiau a gofalu am y disgyblion iau. Mae'r amrywiaeth eang o gynghorau disgyblion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn rhannu eu blaenoriaethau yn effeithiol iawn gyda rhanddeiliaid; er enghraifft, mae'r cyngor eco wedi creu fideo i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd cynhyrchu ynni adnewyddol ac aildefnyddio dŵr glaw yn y toiledau.

Mae dealltwriaeth bron pob disgybl am bwysigrwydd yfed dŵr, bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn gadarn iawn. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n effeithiol trwy ystod eang o weithgareddau corfforol, gweithgareddau'r cyngor ysgolion iach a themâu ysgol gyfan. Enghraifft nodedig yw gwaith y llysgenhadon chwaraeon sy'n rhedeg y clwb 'Ffit mewn 5' ar draws yr ysgol. Maent yn hyrwyddo ffitrwydd ac yn annog y disgyblion i gadw'n heini trwy wahanol weithgareddau hwyllog. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu at nifer o brosiectau llwyddiannus sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les eu cyd-ddisgyblion. Enghraifft dda yw'r gwaith o sefydlu parc antur cyffrous ar diroedd yr ysgol, mewn partneriaeth â chymdeithas y rhieni. Mae aelodau'r cyngor ysgol iach yn hyrwyddo pwysigrwydd diet cytbwys yn llwyddiannus iawn drwy gyflwyniadau i lywodraethwyr, rhieni a disgyblion ar beth i'w gynnwys mewn bocs bwyd iach. O ganlyniad, mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o effaith gwahanol fwydydd ar eu cyrff.

Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Maent yn awyddus i fynychu gan eu bod yn teimlo y byddent yn methu allan os byddant yn colli diwrnod o ysgol. Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Maent yn mwynhau'r gwersi ac yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant uchel yn eu dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n hyderus ac yn effeithiol mewn pâr neu mewn grŵp ac yn dyfalbarhau i weithio'n annibynnol am gyfnodau estynedig. Mae eu cyfraniad i'r 'grwpiau meddwl' mewn gwersi yn dangos aeddfedrwydd a dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cydweithio a chefnogi ei gilydd. Mae hyn yn datblygu eu medrau cydweithio yn llwyddiannus iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i oresgyn anawsterau pan fyddant yn codi.

Mae safonau ymddygiad bron pob disgybl yn arbennig o dda. Maent yn dangos lefel uchel o barch a chwarteisi at gyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n ardderchog at greu ethos gofalgaf a pharch tuag at eraill ar draws yr ysgol. Nodwedd gref yw'r ffordd mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cefnogi eraill mewn ystod o sefyllfaoedd gwahanol, er enghraifft trwy ddarllen gyda'i gilydd yn ystod cyfnodau 'bydis darllen' a thrwy ddysgu rheolau chwarae gwyddbwyll iddynt. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at sicrhau safonau uchel o les ac ymddygiad ar draws yr ysgol.

Addysgu a profiadau dysgu: Rhagorol

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu hynod ysgogol sy'n diwallu diddordebau ac anghenion yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus iawn. Trwy gynnwys syniadau'r disgyblion yn y broses gynllunio, mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a chyfoes sy'n cael ei addasu yn effeithiol iawn i sbarduno ac ysgogi disgyblion i gyflawni cystal ag y gallant. Nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol yw'r ffordd mae athrawon yn sicrhau bod datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn greiddiol i'w chynlluniau. Mae'r holl brofiadau dysgu buddiol yn seiliedig ar ddysgu blaenorol ac yn datblygu'r medrau hyn yn systematig. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd effeithiol iawn i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm yn naturiol.

Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Mae ganddynt berthynas waith hynod effeithiol gyda'r holl ddisgyblion, sy'n cyfrannu'n werthfawr at greu

amgylchedd dysgu o safon uchel. Mae bron pob un yn modelu iaith safonol yn llwyddiannus ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i wella medrau llafar y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith arbennig ar eu safonau llafar ac ysgrifennu. Mae cyflwyniadau'r athrawon yn fywiog ac yn ddiddorol sy'n sbarduno bron pob disgybl i gyflawni cystal ag y gallant. Maent yn gosod tasgau heriol er mwyn ymestyn bron pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus iawn. Yn ogystal, mae'r holl staff yn defnyddio holi effeithiol er mwyn atgyfnerthu ac ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach. Trwy gynllunio manwl, maent yn sicrhau cydbwysedd da iawn rhwng mewnbwn oedolion a disgybl, wrth iddynt gwblhau tasgau. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at feithrin medrau dysgu annibynnol y disgyblion yn ogystal â datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus iawn.

Mae gan staff y cyfnod sylfaen ymwybyddiaeth dda o egwyddorion y cyfnod hwn ac maent yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ffordd y mae'r staff yn cynllunio tasgau a phrofiadau dysgu heriol sy'n annog y disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon yn effeithiol iawn trwy annog disgyblion i weithio'n annibynnol a chymhwysu'u medrau drwy dasgau heriol. Maent yn annog y disgyblion i weithio'n unigol, mewn parau neu fel rhan o grŵp, i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd y disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r athrawon yn sicrhau bod bron bob disgybl yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llafar cyfoethog sy'n cael eu hadlewyrchu'n gyson yn eu gwaith. Enghraifft arbennig o hyn yw'r cyfleoedd cyson mae'r disgyblion yn eu cael i ysgrifennu barddoniaeth a darnau creadigol gan ddefnyddio ansoddeiriau a chymariaethau cyfoethog. Yn ogystal, mae'r athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu effeithiol iawn i ddatblygu medrau TGCh a rhifedd disgyblion yn gwbl naturiol ar draws y cwricwlwm fel rhan o'u gwaith pob dydd. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfuno'u medrau i gofnodi a dadansoddi data ar bellter cymalau'r 'Tour de France'.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol iawn i ddisgyblion ystyried eu perfformiad eu hunain, a'i fireinio lle bo angen, wrth iddynt weithio drwy eu tasgau. Maent yn annog disgyblion i lunio eu meini prawf llwyddiant eu hunain yn gyson er mwyn iddynt fesur llwyddiant. Nodwedd gref o weithdrefnau asesu gwaith y disgyblion yw'r ffordd fedrus mae'r staff yn cynnig adborth hynod ddefnyddiol a gwerthfawr i'r disgyblion. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth fanwl ynglŷn â sut i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei gyflawni er mwyn creu gwaith o safon uchel.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r staff i gynllunio a darparu cefnogaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf iawn o'u man cychwyn.

Mae staff yn adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn gynnar. Mae'r cymorthyddion yn gweithio'n fedrus i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg clir, sy'n cynnwys targedau penodol, mesuradwy a heriol. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni a'u haddasu yn ôl y galw. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol fel athrawes ymgynghorol anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod lleol a therapyddion iaith i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion. Maent hefyd yn manteisio ar yr arbenigeddau hyn yn ogystal â'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol i gynnig rhaglen effeithiol o hyfforddiant i staff. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau athrawon a chymorthyddion er mwyn cynnig ystod eang o raglenni ymyrraeth i wella medrau disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a'r Cwricwlwm Cymreig yn gryfder mawr yn yr ysgol. Maent yn cynnal dyddiau arbennig o ddathlu Cymreictod yn ogystal â chynnal 'clwb iwcalili' i hybu ymwybyddiaeth o ganeuon traddodiadol a chyfoes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn hynod effeithiol, yn arwain at safonau uchel yn eu medrau creadigol, yn codi eu hunanhyder ac yn cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth Gymreig yn llwyddiannus iawn.

Mae'r staff yn darparu ystod gyfoethog o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol. Trwy wneud hyn, maent yn annog disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr cydwybodol sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli symbylus a thrwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol o safon dda. Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at randdeiliaid yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae ymddygiad cyfeillgar y disgyblion tuag at ei gilydd yn nodwedd gref iawn ac yn dystiolaeth gadarn o lwyddiant cymorth gofalg ar yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu perthynas gadarn gyda'r cymunedau lleol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'u rôl mewn cymdeithas. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion am y byd ehangach a diwylliannau eraill wedi datblygu'n llawn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach ac mae'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i annog disgyblion i wneud dewisiadau iach yn eu bywydau. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu lles a ffitrwydd disgyblion, er enghraifft trwy drefnu twrnamaint pêl-droed a ras rhedeg ar gyfer y gymuned leol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Ers sefydlu'r ysgol, mae'r pennaeth wedi gosod a hyrwyddo ei gweledigaeth gadarn ar gyfer ysgol gymunedol hapus a chynhwysol yn effeithiol iawn. Mae'r weledigaeth hon wedi gwreiddio'n hynod llwyddiannus mewn amser byr. Mae'r ffocws parhaus ar safonau cyflawniad a chynnydd disgyblion yn nodwedd gref iawn ar draws yr ysgol. Caiff disgyblion eu cynnwys yn llawn wrth wneud penderfyniadau am ddatblygiad yr

ysgol. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n hynod effeithiol er mwyn sicrhau bod disgyblion o ddalgylch eang yr ysgol yn magu ymdeimlad o berthyn, gan ddatblygu balchder yn eu cynnydd a'u llwyddiant. Mae cydweithio agos â'r cymunedau lleol yn sicrhau ymrwymiad y dalgylch i lwyddiant yr ysgol newydd. O ganlyniad, mae'r gymuned wedi datblygu ymglymiad arbennig â'r ysgol mewn cyfnod byr.

Mae gan arweinwyr wybodaeth drylwyr a manwl am berfformiad cyfredol yr ysgol. Mae aelodau'r tîm arwain yn ysgwyddo cyfrifoldebau am wahanol flaenoriaethau gwelliant sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at gynnal a chodi safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r pennaeth wedi datblygu tîm cryf o arweinwyr sydd yn cydweithio'n llwyddiannus iawn, gan gynnig cefnogaeth fwriadus i'w cydweithwyr. Maent yn arsylwi gwersi ym meysydd eu cyfrifoldebau, gan gynnig arweiniad manwl a miniog i'w cydweithwyr o ran llwyddiannau ac agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn ardderchog, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn dros amser.

Mae aelodau'r corff llywodraethol wedi llywio'r ysgol tros gyfnod ei sefydlu yn hynod effeithiol, gan roi sylw dyledus i uno'r sefydliad. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr a chadarn iawn ynglŷn â pherfformiad yr ysgol a'i hanghenion datblygiad. Maent yn cyfrannu'n drylwyr at weithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol mewn modd uniongyrchol. Er enghraifft, mae aelodau'r is-banel gwella yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu, yn craffu ar waith disgyblion ac yn trafod gydag arweinwyr eraill a disgyblion. Maent wedi adeiladu cynhwysedd effeithiol iawn i fedru gweithredu fel ffrind beirniadol llwyddiannus i'r ysgol. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn effeithiol i herio'r ysgol am ei pherfformiad. Enghraifft nodedig yw'r ffordd mae aelodau'r corff wedi ymgymryd â gweithgareddau monitro pwrpasol er mwyn cefnogi a herio staff wrth ymsefydlu elfennau o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn gadarn ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol iawn. Enghraifft nodedig yw'r modd maent yn cyflwyno medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn modd creadigol, cyson a thrylwyr ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynnwys y disgyblion yn llawn mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth a sut y byddant yn dysgu. Maent yn paratoi'r tir yn llwyddiannus ar gyfer dyfodiad y cwricwlwm newydd i Gymru. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddysgwyr annibynnol a hyderus.

Mae gan arweinwyr a staff yr ysgol wybodaeth drylwyr am gryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn drwyadl ac effeithiol iawn. Maent wedi eu seilio ar amrediad effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol. Mae arweinwyr a'r holl staff yn cymryd rhan yn y gweithdrefnau trwy arsylwi gwersi, a chraffu ar waith disgyblion. Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o ganfyddiadau'r gweithdrefnau hunanwerthuso. Mae nifer addas o flaenoriaethau sydd yn nodi camau gweithredu pwrpasol a manwl. Mae meini prawf llwyddiant priodol a cherrig milltir er mwyn mesur cynnydd ar adegau penodol. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd disgyblion, er enghraifft wrth hyrwyddo safonau disgyblion mwy galluog yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn effeithiol iawn. Maent yn cyd-gyflwyno gwersi, gan drafod cynlluniau a gwerthuso effaith y gwaith ar

safonau disgyblion. Yn ogystal, maent yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill yn lleol i rannu arbenigeddau er mwyn datblygu'r dysgu ac addysgu.

Mae adnoddau'r ysgol yn rhagorol ac mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn ohonynt. Mae lefel briodol o staff ar gyfer sicrhau bod cwricwlwm llawn a chytbwys yn cael ei gyflwyno'n effeithiol a defnyddir eu harbenigeddau yn hynod lwyddiannus er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae amrediad arbennig o adnoddau tu mewn a thu allan i'r adeilad.

Mae arweinwyr yn sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau ariannol yr ysgol ac mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n ofalus er mwyn sicrhau gwerth am arian. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion er mwyn cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019